**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Gorffennaf 8fed, 2024 am 7.30 y.h. yn Nghanolfan Deunant.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Gwenllian Haf, Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Nesta Roberts, Dafydd Williams, Gareth Williams (Cyngor Gwynedd), Robert Williams, Wenda Williams. Y clerc Phil Hughes.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Tim Rosa.

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:** Nid oedd cyhoeddiadau

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Mehefin 10fed, 2024:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir a llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion:**

i. **Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
**Coeden yn dod i'r lon wrth Bencaerau** – Mae Cyngor Gwynedd yn anfon ail lythyr.
**Ail-wynebu Lôn Rhwng Pencaerau a Rhoshirwaun** - Gyda chyllideb yr adran yn cael ei leihau yn flynyddol, mae'r adran yn gorfod blaenoriaethu'r ffyrdd gwaethaf sydd angen eu hail-wynebu. Mae'r broses arwisgo yn rhan o waith cylch bywyd ffordd, dim yr opsiwn rhataf fel mae llawer yn tybio. Mae'r broses yn selio wyneb y ffordd er atal dŵr dreiddio'r wyneb. Mae hyn eto yn arbed dirywiad yn y ffordd ac yn helpu ei hoes. Mae'r broses yn driniaeth ffordd sydd gydag allyriant carbon isel i gymharu ag ail-wynebu cyffredin. Mae'n prosesau cynaliadwy a charbon isel yn rhan o ystyriaethau cynnal ffyrdd y Cyngor.
**Conau ar hyd y lon o Ysgol Llidiarau hyd at lon cae du** - Mae'r conau/arwyddion wedi'i gosod er diogelwch y cyhoedd wrth ddisgwyl i waith draenio cael ei wneud. Mae'r gwaith draenio yma ar restr waith i'w flaenoriaethu gan yr uned waith a chaiff sylw pan fydd adnoddau ar gael.
**Torri gwair yn ardaloedd 30mya yn wael** - Mae llawer o flodau gwyllt ar gloddiau adeg yma o'r flwyddyn, bydd y rhain wedi gwywo erbyn toriad mis Gorffennaf.
**Parcio yn Henfaes** – Maent yn ceisio cael y maes parcio wedi ei staffio rhwng 10y.b - 4y.h. ac mae bob man parcio wedi eu peintio.

ii. **Materion yr Eglwys Newydd** – Mae Aaron Burrows (yswiriant) wedi siarad gyda'r cynghorwr Dewi Evans ac wedi cytuno gyda thalu am y mwyafrif o'r gost adnewyddu'r Eglwys sef £50,000. Mae'r gost am y gwaith i gyd yn dod at tua ~£75,000. Cytunodd y cyngor i fynd ymlaen gyda'r holl waith mae Gahllaghers wedi rhoi pris amdano. Mae'r contract wedi ei dderbyn a'i arwyddo gan y cynghorwr Jaci Jones.

iii. **Y Fynwent** – Mae'r cynghorwr Nesta Roberts wedi dod o hyd i lyfr cofnodion yn mynd yn ôl rhai blynyddoedd ac mae'n cofnodi beddi a phrisiau a chodwyd. Er fod rhai blynyddoedd wedi mynd heibio heb ddefnyddio'r llyfr cofnodion, penderfynwyd y cyngor ail ddechrau'r llyfr o hyn ymlaen.

iv. **Y Cae Chwarae** – Nid oedd diweddariad ar y cae chwarae.

**5) Gohebiaethau**

- Menter Rabar - Cais am Gefnogaeth Ariannol – Er gwybodaeth, byddwn yn ei drafod yng nghyfarfod mis Medi.
- Prosiect Perthyn yn Llŷn - Sian Parry wedi anfon llythyr at Jeremy Miles A.S. - Er gwybodaeth
- Ymchwil ar dai fforddiadwy i bobl leol yn Nwyfor – Galwad ffon o 10 munud i roi barn. - Os oes aelod eisiau mae hyn yn opsiynol.
- Cyngor Tref Chirk yn cynnig hyfforddiant 'One Day RP11 Routine Inspectors Course' - Er gwybodaeth os oes unrhyw un eisiau mynychu.
- Ymgynghoriad newydd: Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant 2024-2030 – Er gwybodaeth
- Cais am linellau melyn wrth y Ship – Penderfynwyd byddai'n achosi fwy o broblemau felly angen mynd yn ôl a gofyn i ail beintio'r llinellau llwytho yn unig.

**6) Cynllunio**

C24/0469/30/DT - Cyndyn Isaf, Anelog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8BT - Dymchwel ystafell wydr bresennol ac adeiladu estyniad un llawr sy'n cynnwys 'snug' a phwll nofio. Adeiladu porth newydd. Trosi ysgubor bresennol yn swyddfa gartref ac ystafell storio. - **Dim gwrthwynebiad a dim sylwadau.**

**7) Ariannol**

i)Archwiliad mewnol wedi ei gwblhau, 3 pwynt wedi codi. -

- Diffyg gwahanu dyletswyddau wrth greu a phrosesu taliadau ar lein. - Penderfynwyd gofyn i HSBC os oes ffordd o ychwanegu person i ganiatáu taliadau ar lein.
- Methiant i gynnwys manylion cyflawn y gofrestr asedau e.e. y dyddiad ddaeth yr ased i feddiant y cyngor – Penderfynwyd y bydd hyn yn gallu cael eu hychwanegu'r flwyddyn nesaf.
- Methiant i gyhoeddi Polisi Bioamrywiaeth – Penderfynwyd creu erbyn blwyddyn nesaf.

*Derbyniadau*

| | |
|---|---|
| Ad-daliad TAW | £3,801.40 |
| G D Roberts (Seimon Grudge) | £270 |

*Taliadau*

| | |
|---|---|
| Ffioedd banc HSBC | £5 |
| Nesta Roberts (CCTV) | £13.10 |
| Phil Hughes (Cyflog) | £260 |
| HMRC (PAYE) | £65 |
| Gruffydd Jones (Torri llwybrau) | £900 |
| E-On (Trydan) | £15.12 |
| Neuadd y Rhiw (Cyfarfod) | £20 |
| Cyngor Gwynedd (Toiledau) | £2,000 |

**8) Materion ffyrdd a llwybrau**

1) Yn Rhoshirwaun wrth y lon sydd yn troi am Bencaerau mae fan yn parcio wrth y capel ac mae'n gwneud hi'n anodd troi allan – Penderfynwyd cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i weld os yw'n bosib cael drych yno.

2) Yn Felin Uchaf mae coed wedi tyfu ac yn mynd dros y man pasio wrth y bont, penderfynwyd cysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn a yw'n bosib cael hwn wedi ei farbio.

3) Mae ffens yn dod allan i'r lôn ar y gornel o Pengroeslon i'r Rhiw. - Gofyn a yw Cyngor Gwynedd yn gallu barbio.

4) Mae gordyfiant ar y ffordd rhwng Methlem a Rhydlios, Rhoshirwaun. - Gofyn a yw'n bosib barbio.

5) Beth sydd yn digwydd gyda Thy'r Ysgol ac Ysgol Llidiardau – Gofyn i Gyngor Gwynedd am ddiweddariad.

6) Bin sbwriel cae chwarae - bydd angen sicrhau ei fod yn cael ei wagio dros yr haf.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, Medi 2ail, 2024**

**yn Neuadd Rhoshirwaun 7.30y.h.**